# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 10fed o Orffennaf 2018 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**

Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Wyn Jones, Barry Owen a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:**

Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**

Cynghorwyr Wyn Evans, Garym Roberts, Gerallt Davies, Eiddwen Merritt a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:**

Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Mehefin a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Dywedodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies ei fod wedi gwneud ymholiadau pellach ynglyn a'r arwydd coll yn Nerwen Gam a bydd yn cael ei ail osod cyn gynted a phosib

**Materion Cynllunio:**

Rhif Cyf. A180612
Tir yn Wenfryn Ffos-y-ffin.
Codi 5 ty annedd (3 fforddadwy).
Dim gwrthwynebiad.
Rhif Cyf. 180614
Tir yn Wenfryn, Ffos-y-ffin.
Plot 6 a 7, Codi 2 annedd ar wahan.
Penderfynwyd dangos consern achos bydd 3 mynedfa mor agos i'w gilydd yn gorlenwi'r ffordd ag ystyried fod 2 fynedfa arall gwrtherbyn.

Rhif Cais A180618
Tir cyfagos i'r Ardd Gofio.
Newid defnydd i gwrtil ddomestig.
Dim gwrthwynebiad.
Rhif Cais A180617
Gwrthwynebiad ar sail ei faint a'i uchder a byddai ddim yn cydweddi a thai cyfagos.

**Ymgynghoriad Cynllun Datblygi Lleol Ceredigion 2018-2033:**
Darllenwyd lythyr yn sôn am yr uchod.
Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dechrau ar 29 Mehefin 2018 a fydd rhaid dychwelyd y ffurflenni erbyn hanner dydd 27 Medi 2018.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus Gwasanaeth Tân:**
Danfornwyd lythyr yn sôn sut y maent wedi arbed £9 miliwn sy'n 20% o'i cyllideb ers 2006 ac yn ein gwahodd i rannu ein barn ar ei gwasanaethau drwy gymeryd rhan ar ei arolwg ar-lein.

**Cyfarfod Un Llais Cymru:**
Cadarnhawyd y bydd cyfarfod blynyddol Un Llais Cymru ar y 18 Gorffennaf 2018 yn Siambr Penmorfa am 7.00 yh. Mae 2 aelod o'r pwyllgor yn golygu ei fynychu.

**Ymwybyddiaeth i Ddatganoli Darlledu:**
Danfonwyd neges oddiwrth swydd Maes Dyfed gyda Chymdeithas yr Iaith i godi ymwybyddiaeth i Ddatganoli Darlledu ymhob Cymuned yng Ngheredigion drwy gynnal noswaith gig neu adloniant, ac hefyd sôn am y cynllun i ddatblygu polisi Iaith gyda Chynghorau Cymuned i hybi'r iaith mewn nifer o agweddau. Fe fydd rhagor o wybodaeth maes o law.

**Ein sgwrs barhaus:**
Derbyniwyd nodyn oddiwrth y Cyngor Sir i ddweud eu bod yn cynnal sgwrs gyda thrigolion i roi llais o ran cryfhau ein cymunedau yn y dyfodol.
Ceir mwy o wybodaeth ar:
https://www.ceredigion.gov.uk/ ein-sgwrs-barhaus-ich-helpu-chi

**Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-2023:**
Darllenwyd lythyr oddiwrth Cyngor Sir Ceredigion yn dweud am y Strategaeth uchod a sut bydd y Cyngor yn gweitho mewn cydweithrediad gyda sefydliadau eraill i hybu'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ein ardal. Penderfynwyd yn unfrydol i'w gefnogi. Ceir yr holl wybodaeth ar:
Strategaeth Iaith Ceredigion Dogfen Ymgynghori
**Unrhyw Fater Arall:**
Dosbarthwyd dogfennau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus yn ymwneud a Safle Gwastraff Cartref Rhydeinon i'r aelodu i'w llenwi a'u dychwelyd i'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 11fed o Fedi.